



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD IECHYD GALWEDIGAETHOL

Maes Gwasanaeth CBST:	AD Strategol
Maes gwaith:	Iechyd Galwedigaethol
Manylion Cyswilt:	occupational.health@torfaen.gov.uk 01495 766410
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	HYSBYSIAD PREIFATRWYDD IECHYD GALWEDIGAETHOL

Rheolwr data:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Swyddog Diogelu Data a Rheoli Gwybodaeth:

Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

Prosesydd Data:

Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Adran Iechyd Galwedigaethol
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Mae'r Adran Iechyd Galwedigaethol wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau'r unigolyn, gan gydnabod y caiff unrhyw ddata personol ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR).

1) Pa ddata fydd yn cael ei gasglu:

Gall iechyd galwedigaeth gasglu, cadw a rhannu'r data canlynol:

- Gwybodaeth bersonol (ee Enw, Cyfeiriad, Dyddiad Geni)
- Nodweddion (ethnigrwydd, cenedl)
- Swyddi presennol a chyn swyddi
- Gwybodaeth am iechyd.

2) Gan bwy y bydd yn cael ei gasglu:

- Adnoddau Dynol
- Rheolwyr
- Gweithwyr
- Gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes iechyd (ee meddyg, arbenigwr, ffisio)

3) Sut fydd y data'n cael ei gasglu

- Post
- E-bost
- Ar lafar (naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb)
- Holiaduron lechyd
- Asesiadau lechyd
- Atgyfeiriadau.

4) Pam mae angen ei gasglu

- At ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, i asesu gallu gwaith y gweithiwr.
- Sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr yn y gwaith a chaniatáu i ystyried unrhyw addasiadau y gall fod eu hangen i gefnogi eu gallu i weithio.
- Gellir defnyddio data hefyd ar gyfer ymchwil, archwilio neu ystadegau, ac os dyna fydd yr achos, cedwir hyn yn ddienw.

Sail Gyfreithlon ar gyfer Prosesu (o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, 2018)**1. Erthygl 6(1)**

(f) Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon (1) a ddilynr gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fydd buddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid y gwrthrych data yn bwysicach na'r fath fuddiannau sy'n galw am ddiogelu data personol, yn enwedig os mai plentyn yw testun y data.

2. Amod ychwanegol o ran prosesu Data sydd o Gategori Arbennig**Erthygl 9(2)**

(h) Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion Meddygaeth Alwedigaethol, i asesu gallu'r gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu gofal iechyd a chymdeithasol neu driniaeth, neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail yr UE neu gyfraith neu gytundeb Aelod-wladwriaeth i weithiwr iechyd proffesiynol ac yn ddarostyngedig i'r amodau a'r mesurau diogelu y cyfeirir atynt yn 3 (isod).

3. Erthygl 9(3) 2

Gellir prosesu data personol at y dibenion y cyfeirir atynt yn (2) (h) pan fydd y data hwnnw'n cael ei brosesu gan neu o dan gyfrifoldeb gweithiwr proffesiynol sy'n destun rhwymedigaeth cyfrinachedd proffesiynol o dan gyfraith yr UE neu gyfraith Aelod-wladwriaeth neu reolau a sefydlwyd gan gyrrff cymwys cenedlaethol.

5) Am Ba Hyd y Cedwir Eich Data

- Cedwir y wybodaeth am 6 mlynedd ar ôl i unigolyn adael cyflogaeth neu 75 oed (pa un bynnag fydd gyntaf) fel yr argymhellir gan Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA) oni bai y cydnabyddir bod angen clinigol neu ofyniad statudol i'w chadw'n hirach
- Bydd asesiadau i weithwyr newydd yn cael eu taflu ar ôl 2 flynedd os nad yw'r cynnig o swydd yn cael ei dderbyn.

6) Sut y Bydd Eich Data yn Cael ei Storio (2)

- Cedwir cofnodion ar bapur yn bennaf fel rhan o system ffeilio strwythuredig ac fe'u cedwir yn unol â pholisi storio cofnodion meddygol y BMA ac mewn cydymffuriad â'r GDPR. Maent yn hygyrch i lechyd Galwedigaethol yn unig.
- Mae rhai cofnodion yn cael eu cadw'n ddigidol ar yriant personol ar wahân yn y system TG ac maent wedi'u diogelu gan gyfrinair.

7) Gyda Phwy y Rhennir Eich Gwybodaeth

- Ni fydd gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd oni bai bod y gyfraith yn caniatáu hyn, neu os oes perygl difrifol i fywyd.
- Bydd canlyniadau Archwiliadau Iechyd yn cael eu trosglwyddo i'r cyflogwr dan Reoliadau 11 COSHH 2002 ac ACOP 2103 i'w cadw fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

8) Eich Hawliau

- Mae gennych hawl i weld unrhyw wybodaeth a gedwir amdanoch yn eich Cofnod Clinigol Iechyd Galwedigaethol. Dylid gwneud y cais yn ysgrifenedig ac ymatebir iddo o fewn 4 wythnos, heb dâl.
- Gallwch hefyd ofyn i roi newid ynghlwm wrtho os ydych chi'n credu bod unrhyw wybodaeth a gedwir gan Iechyd Galwedigaethol yn anghywir neu'n gamarweiniol.
- Mae gennych hawl i dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, am unrhyw reswm. A fydddech cystal â sicrhau bod Iechyd Galwedigaethol wedi derbyn y wybodaeth hon.
- Yn achos cais i ddileu, gall fod angen ei gadw yn ôl y gyfraith (e.e. os oes angen cadw i gydymffurfio â'r gyfraith).

1 Lle mae budd dilys i'r cyflogwr e.e. i'r Ymarferydd IG rhoi cyngor ar addasrwydd i weithio i redeg ei fusnes yn effeithlon ac yn ddiogel, er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Gyfraith Iechyd a diogelwch a chyfraith cyflogaeth yn enwedig y Ddeddf Cydraddoldeb neu o ran ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran tâl salwch.

2 Erthygl 9(3) e.e. gan weithiwr iechyd proffesiynol rheoledig. Mae hyn yn cynnwys cyfraith gwlad a dyletswydd cyfrinachedd CMC / CNaB (Cyf) yn y GDPR.

Cyfeiriad:

Cod Ymddygiad y CNaB - Cymal 5, Preifatrwydd a chyfrinachedd; Cymal 7, Cyfathrebu'n glir; Cymal 10, Cofnodion clir, cywir a pherthnasol; Cymal 14, Bod yn agored ac yn onest gan gynnwys camgymeriadau; Cymal 16, Gweithredu heb oedi os oes risg i ddiogelwch claf neu i ddiogelwch y cyhoedd..

Joyce Round

Occupational Health Adviser / Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol

Specialist Community Public Health Nurse / Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol

Torfaen County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Civic Centre / Y Ganolfan Ddinesig

Pontypool / Pont-y-pŵl

Torfaen

NP4 6YB

Tel (01495) 766410

Fax (01495) 766180

E-mail joyce.round@torfaen.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi	Fersiwn/ Statws	Rheswm dros Newid	Newidiwyd Gan:
26/06/2019	1.1 Byw	Crëwyd y ffurflen i gydymffurfio â gofynion GDPR - OH	Joyce Round